

HOWELL, GWILYM neu WILLIAM (1705 - 1775), almanaciwr a bardd

Enw: Gwilym Howell

Dyddiad geni: 1705

Dyddiad marw: 1775

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: almanaciwr a bardd

Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac leithoedd; Gwyddoniaeth a Mathemateg; Y Gofod a Hedfan

Awdur: Enid Pierce Roberts

Ganwyd ef ym mhlwyf Llangurig, Sir Drefaldwyn, ond treuliodd y rhan fwyaf o'i oes ym mhlwyf Llanidloes, lle bu'n stiward ar stad Berthllwyd am lawer blwyddyn. Bu'n faer Llanidloes, 1762-3. Yr oedd yn fardd ei hun a chasglodd weithiau beirdd eraill, yn arbennig barddoniaeth [Huw Morys](#). Dywed '[Iolo Morganwg](#)' i '[Gwallter Mechain](#)' wneud defnydd helaeth o'r casgliad hwn wrth gyhoeddi *Eos Ceiriog*. Yr oedd ei almanaciau, *Tymhorol Newyddion o'r Wybren*, o nodwedd lenyddol uchel, yn cynnwys gweithiau beirdd cyfoes cylch y [Morrisiaid](#), a chynhyrchion beirdd cynharach megis [Wiliam Cynwal](#), [Siôn Tudur](#), a [Huw Morris](#). Cyhoeddodd gyfres o 10, y cyntaf ohonynt am y flwyddyn 1766. Am na allai gael y peiriannau angenrheidiol ar gyfer ei sywedyddiaeth gwnaeth rai ei hun yn ddeheuig iawn. Llwyddodd i sefydlu eisteddfodau blynyddol yn yr ardal. Cynhaliwyd y gyntaf yn y Red Lion, Llanidloes, 1772. Bu farw 4 Mawrth 1775 a chladdwyd ef ym mynwent Llanidloes.

Awdur

Dr Enid Pierce Roberts

Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Charles Ashton, *Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850* (1893), 728-30

Hamer a Howell William Lloyd, *History of the Parish of Llangurig* (Llundain 1875), 98-100

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894), 123

MS. list of Llanidloes mayors

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733122](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

